| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 10 Mai 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau |
| **Teitl:** | Cymeradwyo Achos Busnes ar gyfer Datblygiad Ysgolion Tref Rhuthun ac Ysgol Carreg Emlyn |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ceisio hysbysu'r Cyngor ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o ran cyflwyno Achos Busnes Amlinellol / Terfynol ar gyfer Datblygiad Ysgolion Tref Rhuthun (Ysgol Penbarras ac Ysgol Stryd y Rhos) a'r Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn, Clocaenog i Lywodraeth Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol yn flaenorol (Ionawr 2016) ar gyfer tri Prosiect Cynradd Rhuthun. Mae'n rhaid cyflwyno Achos Busnes Amlinellol / Terfynol ar gyfer Datblygiad Ysgolion Tref Rhuthun (Ysgol Penbarras ac Ysgol Stryd y Rhos) a'r Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn, Clocaenog i Lywodraeth Cymru yn awr iddynt eu hystyried ar gyfer eu cymeradwyo.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymell cymeradwyo'r Achos Busnes ar gyfer Datblygiad Ysgolion Tref Rhuthun ac Ysgol Carreg Emlyn

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi dymuniad y Cyngor i ddarparu buddsoddiad sylweddol ym mhortffolio Adeiladau Ysgolion y Cyngor rhwng 2012-17. Elfen sylweddol o'r gwaith fydd darparu prosiectau Band A ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

<u>Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif</u>

4.2 Darparodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer £36.7m fel eu cyfraniad 50% ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n cynnwys 5 prosiect ym mis Rhagfyr 2011. Yn dilyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r holl awdurdodau lleol i nodi sut y gellir dyrannu'r buddsoddiad o £1.2biliwn ar draws Cymru i ffrydiau gwaith y gellir eu cyflawni ar gyfer awdurdodau lleol unigol. Yn

2015 cyflwynodd Sir Ddinbych y Rhaglen Amlinellol Strategol diwygiedig i gynnwys Prosiectau Cynradd Rhuthun o fewn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cymeradwywyd hyn ym mis Medi 2015 ac fe gynyddodd gwerth cyffredinol cyfraniad Llywodraeth Cymru o £36.7m i £43.05m.

4.3 Bydd yn ofynnol i bob prosiect yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ddilyn yr arweiniad ar gyfer cymeradwyo Achosion Busnes fel y'i diffinnir ym Model Trysorlys EM. Ar gyfer prosiectau o dan £5 miliwn, bydd angen cymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes, ond ar gyfer prosiectau dros £5 miliwn bydd angen cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn.

Rhaglen Ysgolion Tref Rhuthun

4.4 Bydd prosiect Rhaglen Ysgolion Tref Rhuthun yn darparu adeiladau ysgol newydd a chyfleusterau ar safle a rennir o fewn tref Rhuthun. Mae'r opsiwn a ffefrir wedi'i gynnig yn dilyn dadansoddiad gofalus o ystod eang o opsiynau ar gyfer ardal Rhuthun. Amcangyfrif cyffredinol y prosiect yw tua £10.5m.

4.5 Ym mis Chwefror 2016 penodwyd Wynne Construction yn gontractwr arweiniol yn dilyn cystadleuaeth fechan ymysg y chwe chontractwr a benodwyd i'r band gwerth perthnasol ar gyfer Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Gofynnwyd iddynt gynhyrchu camau dylunio'r ysgol gyda chymalau toriad priodol cyn y cam adeiladu.

4.6 Mae'r Cynllun Busnes Amlinellol / Cynllun Busnes Llawn (Gweler Atodiad 1) yn ceisio oddeutu 42% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r prosiect. Bydd hyn yn golygu y bydd swm o £6,081,188 yn cael ei ddarparu gan Sir Ddinbych. Mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol cyffredinol a'r Cynllun Cyfalaf fel rhan o gyllid Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

4.7 Disgwylir y gellir dilyn y terfynau amser drafft canlynol ar gyfer datblygu'r prosiect:-

| | |
|---|---|
| Gweithgaredd Carreg Filltir | Dyddiadau |
| Cyflwyno Achos Busnes i LlC | Ebrill 2016 |
| Asesiad o'r Achos Busnes gan LlC | Mai 2016 |
| Cwblhau'r Dyluniad Technegol | Gorffennaf 2016 |
| Dyfarnu'r Contract | Awst 2016 |
| Cyfnod Adeiladu | Medi 2016 – Awst 2017 |
| Trosglwyddiad Terfynol | Awst 2017 |

Ysgol Carreg Emlyn

4.8 Sefydlwyd ysgol ardal newydd Ysgol Carreg Emlyn ar 1 Medi 2014. Ffurfiwyd yr ysgol newydd i ddisodli ysgolion blaenorol Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ac mae'n gweithredu ar ddau safle ysgol presennol yng Nghlocaenog a Chyffylliog ar hyn o bryd. Bydd y prosiect arfaethedig yn galluogi'r ysgol i weithredu o un safle ym mhentref Clocaenog.

4.9 Mae'r Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn (gweler Atodiad 2) yn ceisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer £1,395,763 fel cyfraniad tuag at fuddsoddiad o £4,941,720 i adeiladu adeilad ysgol newydd ym mhentref Clocaenog ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn.

4.10 Mae'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer yr adeilad ysgol newydd wedi'u datblygu gan y Tîm Dylunio ac Adeiladu mewnol ac wedi'u cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth cynllunio ym mis Ebrill 2016. Mae'r cynllun prosiect yn ceisio penodi contractwr i ddatblygu'r dyluniad manwl ac i symud ymlaen i adeiladu erbyn diwedd mis Gorffennaf 2016. Dylai hyn olygu y gellir dechrau adeiladu erbyn mis Tachwedd 2016. Yn dilyn penodiad contractwr arweiniol bydd y rhaglen yn cael ei adolygu.

4.11 Disgwylir y gellir dilyn y terfynau amser drafft canlynol ar gyfer datblygu'r prosiect:-

| Gweithgaredd Carreg Filltir | Dyddiadau |
|---|---|
| Cyflwyno Achos Busnes i LlC | Ebrill 2016 |
| Asesiad o’r Achos Busnes gan LlC | Mai 2016 |
| Penodi Contractwr Arweiniol | Gorffennaf 2016 |
| Dyfarnu’r Contract | Awst 2016 |
| Dechrau Adeiladu | Tachwedd 2016 |

4.12 Mae'r Achosion Busnes ar gyfer y ddau brosiect wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 22 Ebrill 2016 ar amod y ceisir cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cabinet a'r Cyngor ar 26 Ebrill a 10 Mai 2016, cyn y penderfyniad terfynol gan Banel Cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod mis Mai 2016. Disgwylir y byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Gweinidog Addysg, a benodir ar ôl etholiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mai 2016. Bydd y trydydd prosiect ar gyfer ysgol ardal newydd Llanfair / Pentrecelyn yn cael ei gyflwyno i aelodau etholedig dros y misoedd nesaf.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd datblygu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Moderneiddio Addysg ehangach yn ffactor i sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei ddyheadau i wella perfformiad addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion fel y nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2012-2017 y Cyngor. Bydd y Rhaglen hefyd yn cynorthwyo'r Flaenoriaeth o Ddatblygu'r Economi Leol drwy fuddsoddi gwariant cyfalaf tuag at wella ansawdd adeiladau ysgol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y costau sy’n deillio o brosiect Datblygu Ysgolion Tref Rhuthun oddeutu £10.5m a bydd prosiect Ysgol Carreg Emlyn oddeutu £4.9m. Bydd cymeradwyo'r Achosion Busnes hyn yn ein galluogi i gytuno ar gontractau gyda Llywodraeth Cymru. Bydd y penderfyniad terfynol i ymgysylltu ar gyfer y cam adeiladu'n cael ei wneud gan y Cabinet. Mae'r prosiectau'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill i sicrhau fod yr effaith ar wasanaethau eraill yn cael eu rheoli'n briodol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir. Bydd yr effaith yn cael ei fonitro yn ystod cyfnod y prosiect. Un o fanteision allweddol y prosiect fydd datrys materion sylweddol sydd ar y safle ar hyn o bryd drwy newid lefelau amryfal sy'n golygu bod ardaloedd mawr o'r adeiladau presennol yn anhygyrch ar hyn o bryd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cafwyd ymgynghoriad helaeth gyda chymuned yr ysgol berthnasol o ran datblygu'r prosiectau hyd yn hyn. Roedd hynny wedi cynnwys nifer o gyfarfodydd ymgynghori yn y gymdogaeth i drafod y cynlluniau arfaethedig ar gyfer adeiladau'r ysgol newydd. Mae Grŵp Aelodau Ardal Rhuthun hefyd wedi cyfrannu at gynnydd y prosiect.

Ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol yr Achosion Busnes yn eu cyfarfod ar 29 Mawrth ac yn dilyn craffu helaeth cefnogwyd yr argymhelliad i'r Cabinet. Ystyriodd y Cabinet yr Achosion Busnes mewn cyfarfod ar 26 Ebrill gan roi cefnogaeth lawn i argymell bod y Cyngor yn ei gymeradwyo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r prosiectau wedi'u hasesu gan grŵp buddsoddi strategol y cyngor ac mae'r costau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cynllun yn parhau i fod wedi'i ariannu'n llawn ac yn gadarn yn ariannol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Pe bai'r prosiect yn methu â derbyn cymeradwyaeth mae perygl na fydd y gwaith a wnaed hyd yn hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach. Gallai cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y Prosiect hwn ym mis Ionawr 2016 leihau'r perygl y bydd y prosiect yn methu â derbyn cymeradwyaeth terfynol gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn lliniaru hyn cafwyd trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ar gynnydd y prosiect.

Bydd gan y prosiectau drefniadau rheoli prosiect clir ar gyfer darparu'r prosiectau a bydd yn cynnwys adolygiadau rheolaidd ar gyfer rheoli risg yn ystod y prosiect.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

**Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972**